# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 27 Hydref 2015 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr: Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Cymunedol; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg.

**Arsylwyr:** Cynghorwyr Ray Bartley, Huw Hilditch-Roberts, Merfyn Parry, Arwel Roberts a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a Parth Cyhoeddus (RM) a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW)l, Adnoddau Dynol a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Rhaglen (JC); Rheolwr Datblygu Cynllunio a Pholisi (AL); Swyddog Cynllunio Polisi (KB); Prif Swyddog Cyllid (RW), a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol yn eitem 5 ar y rhaglen -

Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts - Llywodraethwr yn Ysgol Pen Barras a phlentyn yn mynd i Ysgol Pentrecelyn ym mis Ionawr 2016.
Y Cynghorydd Huw Williams - Mab yn Ysgol Pen Barras

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol yn eitemau 5 a 6 ar y rhaglen -

Y Cynghorydd Bobby Feeley - Llywodraethwr yn Ysgol Stryd Rhos
Y Cynghorydd Merfyn Parry - Llywodraethwr yn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor
Y Cynghorydd David Smith – Ŵyr/wyres yn Ysgol Pen Barras

## 3 MATERION BRYS

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Medi 2015.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2015 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

**5 CYNNIG I GAU YSGOL LLANFAIR DYFFRYN CLWYD AC YSGOL PENTRECELYN O 31 AWST 2017, A BOD ESGOBAETH LLANELWY YN AGOR YSGOL GYNRADD WIRFODDOL A REOLIR NEWYDD FFRWD DDEUOL CATEGORI 2, YR EGLWYS YNG NGHYMRU O 1 MEDI, 2017**

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams yr adroddiad yn manylu ar y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn dilyn cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig, ynghyd â'r diwygiad arfaethedig i oedi'r dyddiad gweithredu gan ddeuddeg mis o 2016 i 2017. Cyfeiriodd at argymhellion yr adroddiad ac ychwanegodd argymhelliad i adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor, fel y nodir ym mharagraff 5.2 o'r adroddiad, i fonitro safonau a chanlyniadau yn barhaus.

Gwnaed y cynnig yng nghyd-destun adolygiad ehangach o ardal Rhuthun. Roedd y ddwy ysgol gymunedol yn gefnogol o'r buddsoddiad mewn ysgol ardal newydd, ac nid oedd y penderfyniad i'w ddynodi'n ysgol Eglwys yng Nghymru yn un cynhennus. Y brif gynnen oedd y categoreiddio iaith, a derbyniwyd 30 gwrthwynebiad gan y gymuned leol yn ymwneud â'r dynodiad arfaethedig i ysgol Categori 2.

Ystyriodd y Cabinet y gwrthwynebiadau a nodwyd yn yr adroddiad, ynghyd â'r dadleuon dros y cynnig a'r ffactorau a nodwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Canolbwyntiodd trafodaeth y Cabinet ar y materion canlynol -

- cydnabuwyd bod y mwyafrif llethol o ddisgyblion oedd yn mynychu'r ddwy ysgol yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai ysgol dwy ffrwd yn caniatáu i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gael eu cynnal ar gyfer disgyblion o'r ddwy ysgol ond byddai hefyd yn caniatáu i bobl ddi-Gymraeg gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy ddechrau yn y ffrwd Saesneg ac yna trosglwyddo i'r ffrwd Gymraeg. Yn 2015, addysgodd Ysgol Llanfair 80 o ddisgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a 23 drwy gyfrwng y Saesneg. O blith yr 80 disgybl yma, roedd 14 (13%) wedi trosglwyddo o gyfrwng Saesneg i Gymraeg, a byddai dynodi'r ysgol yn Gategori 2 yn helpu i gynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg a disgyblion a fyddai'n gadael yr ysgol yn rhugl yn y ddwy iaith
- cyfeiriwyd at y buddsoddiad ychwanegol sydd ei angen er mwyn datblygu a symud yr iaith Gymraeg yn ei blaen mewn ysgol Categori 2, a p'un a fyddai'n gynaliadwy yn y tymor hir o ystyried y sefyllfa ariannol - dywedodd y swyddogion bod 23% o leoedd dros ben yn ardal Rhuthun ar hyn o bryd, a phetai'r holl gynigion yn yr adolygiad yn cael eu rhoi ar waith, byddai'r lleoedd gwag yn gostwng i 9%, ac felly'n golygu y gellir ailddosbarthu adnoddau i ddiwallu anghenion ysgolion
- cafodd pwysigrwydd cadw ethos a diwylliant Cymreig bresennol ei bwysleisio a cheisiwyd sicrwydd ynghylch hynny petai'r cynnig yn cael ei weithredu. Cafodd y Cabinet wybod am gyfrifoldeb ar y cyd sy'n cynnwys y Corff Llywodraethu, GwE (Gwasanaeth Gwella Ysgolion) a'r Cyngor. Byddai'r Corff Llywodraethu yn

sylfaenol o ran sicrhau bod ethos Cymreig cryf yn cael ei gynnal yn yr ysgol newydd, a byddai modd i hyn gael ei adlewyrchu yn eu polisïau rheoli a recriwtio. Fe eglurwyd rôl y Cyngor a'i ymrwymiad i fonitro safonau a chanlyniadau trwy'r Grŵp Monitro Safonau Ysgolion, Pwyllgorau Archwilio a Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg, a fyddai'n diogelu'r ethos Cymreig ymhellach ac yn cynnal parhad
- adroddodd y Cynghorydd Huw Jones, Aelod Arweiniol dros yr Iaith Gymraeg ar y cynnydd a wnaed i gynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg yn y sir, gan dynnu sylw at y cynnydd yn nifer y plant sy'n siarad Cymraeg yn ysgolion y sir ers 2011. Roedd yn falch o nodi bod y categorïau ieithyddol wedi cael eu hegluro'n eglur yn yr adroddiad, ynghyd â data cymharol ynglŷn â rhuglder y disgyblion yn y ddwy ysgol
- eglurwyd y byddai ceisiadau am gludiant dewisol i'r ysgol Categori 1 agosaf yn cael eu hystyried gan ddisgyblion a brodyr a chwiorydd presennol Ysgol Pentrecelyn petai'r ysgol yn cau.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi cwrdd ag ymgyrchwyr o Ysgol Pentrecelyn i glywed eu pryderon o lygad y ffynnon. Roedd ymgyrchwyr yn gefnogol o ysgol Eglwys yng Nghymru newydd, ond roedd ganddynt wrthwynebiad cryf i'r ffaith ei fod yn cael ei ddynodi'n ysgol Categori 2. Roedd wedi ceisio ymatebion i nifer o faterion a godwyd gan y rhai oedd yn gwrthwynebu, gan gynnwys, a roddwyd digon o ystyriaeth i ddisgyblion Ysgol Pentrecelyn, y ffaith na fu unrhyw gyfarfod rhwng rhieni'r ddwy ysgol, pryderon ynghylch yr iaith a siaredir ar iard yr ysgol a'r effaith ar ddiwylliant. Ymatebodd y Swyddogion fel a ganlyn -

- roedd angen ystyried cynigion yng nghyd-destun adolygiad ehangach ardal Rhuthun, er mwyn darparu cymysgedd briodol o ddarpariaeth er mwyn gwasanaethu anghenion disgyblion yn yr ardal wrth symud ymlaen – yn seiliedig ar ffigurau presenoldeb cyfredol, nid oedd digon o alw am ysgol Categori 1, ond roedd ysgolion Categori 1 a 2 yn cyflwyno addysg cyfrwng Cymraeg gyda'r un canlyniadau yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg.
- cylch gwaith a chyfrifoldeb y Cyrff Llywodraethu yw trefnu cyfarfod rhwng rhieni'r ddwy ysgol
- yn ystod ymweliadau â'r ysgolion, gellid clywed Saesneg yn cael ei siarad yn iard yr ysgolion Categori 1 a Chymraeg yn iard yr ysgolion Categori 2 – er nad oedd modd amodi'r iaith yn yr iard ysgol, gallai Cymraeg gael ei annog a'i hyrwyddo gan y Corff Llywodraethu
- fe ymgynghorwyd ag Estyn ynghylch cynigion adolygu ardal Rhuthun, a chafodd eu hymateb ei gynnwys yn yr adroddiad.

Fe ymbiliodd y Cynghorydd Arwel Roberts ar y Cabinet i ddewis ysgol ardal newydd Categori 1 er mwyn gwarchod a chryfhau'r iaith Gymraeg yn yr ardal. Cyfeiriodd at strategaethau cadarnhaol i symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith, gan ddadlau y byddai'n groes i'r polisïau hynny ac yn gam yn ôl i ddewis ysgol Categori 2 yn yr achos hwn, yn enwedig mewn ardal wledig lle roedd yr iaith Gymraeg ar ei chryfaf. Cyfeiriodd at y nifer o wrthwynebiadau a dderbyniwyd, gan ddadlau na fyddai ysgol Categori 2 yn gwarantu addysg cyfrwng Cymraeg at y dyfodol, ac na fyddai Ysgol Pen Barras yn gallu cynnwys yr holl ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo.

Darparwyd yr ymatebion canlynol i'r a materion a godwyd gan -

- fe dynnwyd sylw at y model yn Ysgol Llanfair fel arfer gorau ac roedd yr ysgol yn denu disgyblion o deuluoedd Cymraeg a di-Gymraeg, ac felly'n cynyddu’r nifer o ddysgwyr/siaradwyr Cymraeg - credir y byddai ysgol ardal Categori 2 newydd yn gwella ac yn cynyddu’r ddarpariaeth iaith Gymraeg, a byddai rhagor o ddisgyblion o'r ardal yn cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg
- cafodd lefelau chyrhaeddiad uchel cyson gan Ysgol Llanfair eu canmol hefyd, a chyflawnodd dros 90% Lefel 4+ yng Nghyfnod Allweddol 2 yn 2014
- cydnabuwyd y byddai newid mewn arweinyddiaeth bob amser yn golygu risg a byddai gan y Corff Llywodraethu rôl hanfodol i’w chwarae i sicrhau bod yr ethos Cymreig cryf yn cael ei chynnal
- roedd y dadleuon o blaid ac yn erbyn y categoreiddio iaith wedi cael ei ystyried yn ofalus cyn gwneud yr argymhelliad ac roedd yr awydd i gynyddu nifer y dysgwyr/siaradwyr Cymraeg wedi bod yn ffactor pwysig
- cafwyd adroddiad am rôl y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg o ran rhoi cymorth i ysgolion i symud ar hyd y continwwm iaith, a'r gobaith oedd y byddai’r model a ddefnyddir gan Ysgol Llanfair yn cael ei ailadrodd mewn ysgolion eraill.

Gofynnodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts am sicrwydd ynghylch safonau a chanlyniadau, ynghyd â mesurau diogelu i sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol, a dywedodd fod y Gymraeg yn cael ei siarad yn iard yr ysgol yn Ysgol Pen Barras (Categori 1) a oedd hefyd yn addysgu disgyblion o deuluoedd â chefndir di-Gymraeg. Fe dynnodd sylw hefyd at y pwysau posibl a fyddai ar Ysgol Llanfair gan bod Ysgol Rhewl yn cau.

Cafwyd yr ymatebion canlynol i’r sylwadau hynny a chwestiynau pellach -

- cydnabuwyd mai ychydig iawn o ddisgyblion oedd wedi cael eu hasesu drwy’r ffrwd cyfrwng Cymraeg o ran telerau canlyniadau yn Ysgol Rhewl dros y blynyddoedd diwethaf, a cheisiwyd sicrwydd bod yr adolygu a monitro safonau a chategoreiddio iaith mewn ysgolion wedi bod yn llawer mwy cadarn yn ddiweddar
- cadarnhawyd y gallai disgyblion o Ysgol Rhewl wneud cais am leoedd yn yr ysgol arfaethedig newydd petaent yn dymuno parhau mewn ysgol Categori 2, a byddai eu ceisiadau yn cael eu hystyried yn unol â'r polisi derbyn
- roedd y model a ddefnyddiwyd gan Ysgol Llanfair yn cael ei ystyried yn arfer gorau o ran cynwysoldeb a chanlyniadau gyda chanran uchel o ddisgyblion mewn ffrydiau Cymraeg a Saesneg yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig a thu hwnt
- roedd y costau o ddarparu cludiant ysgol i ddisgyblion a brodyr a chwiorydd sy'n dymuno trosglwyddo o Ysgol Pentrecelyn i ysgol Categori 1 yn fach iawn, a byddai am gyfnod dros dro yn unig
- nod y cynnig oedd diogelu cynaliadwyedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y tymor hir ar gyfer yr ardal
- nid oedd y bygythiad o adolygiad barnwrol yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniad ar y cynnig.

Roedd yr Arweinydd yn cydnabod y sefyllfa anodd gyda dwy farn gref iawn, a phwysleisiodd mai’r ystyriaeth bwysicaf oedd i sicrhau'r ddarpariaeth addysgol,

darpariaeth ddiwylliannol ac ieithyddol orau wrth symud ymlaen.Cyfeiriodd at y buddsoddiad sylweddol mewn addysg ac roedd yn hyderus bod y mesurau diogelu angenrheidiol ar waith i ddiogelu a gwella darpariaeth addysgol, ddiwylliannol ac ieithyddol yn yr ardal. Petai’r cynnig yn cael ei gymeradwyo, roedd yn gobeithio y byddai’r ddwy gymuned yn cydweithio er lles yr ysgol ardal newydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Eryl Williams argymhellion yr adroddiad ynghyd â'r argymhelliad ychwanegol a nodwyd ym mharagraff 5.2 yr adroddiad. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Cabinet yn fodlon bod y cynnig yn cynrychioli'r opsiwn gorau er mwyn cyflwyno addysg yn yr ardal at y dyfodol.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn -*

(a) *nodi canfyddiadau'r adroddiad gwrthwynebiad;*

(b) *yn dilyn ystyried yr uchod, mae'r Cabinet yn cymeradwyo gweithrediad y cynnig a'r diwygiad arfaethedig i gau Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2017, a bod Esgobaeth Llanelwy yn agor Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir newydd ffrwd ddeuol Categori 2 yr Eglwys yng Nghymru o 1 Medi 2017;*

(c) *bod ceisiadau am gludiant dewisol i'r ysgol categori 1 agosaf, yn cael eu hystyried fesul achos, gan ddisgyblion presennol a'u brodyr neu chwiorydd yn Ysgol Pentrecelyn am weddill eu haddysg gynradd ar ôl i’r ysgol gau (o 1 Medi 2017), a*

(d) *bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i fonitro safonau a chanlyniadau’r Ysgol Ardal newydd a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion, Archwilio a chan y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg.*

Ar y pwynt hwn (11.10am) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

## 6 BWRIAD I GAU YSGOL LLANBEDR DYFFRYN CLWYD

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams yr adroddiad a oedd yn manylu ar ganfyddiadau’r ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig i gau Ysgol Llanbedr DC ar 31 Awst, 2016 a throsglwyddo’r disgyblion presennol i Ysgol Borthyn, Rhuthun yn amodol ar ddewis y rhieni, a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cabinet i gyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig.

Mae'r cynnig wedi cael ei wneud fel rhan o'r adolygiad ehangach ardal Rhuthun, ac er bod rhywfaint o wybodaeth gefndirol wedi cael ei ddarparu yn flaenorol, roedd yn ofynnol i'r Cabinet ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad o'r newydd. Mae’r achos dros newid wedi ei nodi yn yr adroddiad yn seiliedig ar amcanion y Cyngor i leihau lleoedd dros ben, sicrhau dosbarthiad tecach a mwy cyfartal o gyllid ysgolion a rhoi mwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar gyfer ystâd ysgolion. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnwys opsiwn arall a gyflwynwyd gan Esgobaeth Llanelwy i ffederaleiddio Ysgol Llanbedr DC gydag Ysgol Trefnant VA, a newid statws cyfreithiol o Ysgol Wirfoddol a Reolir i Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir.

Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried hyfywedd y dewis ffederaleiddio cyn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r rhybudd statudol i gau.

Ystyriodd y Cabinet yr achos dros ffederaleiddio gan ofyn a fyddai'n cyflawni amcanion y Cyngor i fynd i'r afael â lleoedd dros ben yn ardal Rhuthun, darparu canlyniadau addysgol gwell, lleihau'r gost fesul disgybl a darparu ysgol gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Cafodd manteision a'r risgiau eu hystyried hefyd ynghyd â'r goblygiadau i'r partneriaid ffederaleiddio arfaethedig. Yn ystod y drafodaeth, nododd y Cabinet -

- y byddai ffederaleiddio yn golygu bod y ddwy ysgol yn parhau ac yn rhannu Corff Llywodraethu - ni fyddai'n mynd i'r afael â'r mater o leoedd dros ben
- ni fyddai unrhyw arbedion yn cael eu gwneud o ran y gost fesul disgybl o ganlyniad i ffederaleiddio, ac ar gyfer cynaliadwyedd yn y dyfodol, roedd angen gostwng costau refeniw a chyfalaf
- Yn gyffredinol roedd canlyniadau addysgol yn ardal Rhuthun yn dda ac roedd disgwyl i ysgolion gynnal neu wella canlyniadau - ni ellid ffurfio barn ar hyn o bryd ynghylch a fyddai ffederaleiddio yn golygu canlyniadau gwell
- roedd Awdurdod yr Esgobaeth a Chorff Llywodraethu yn angerddol am gadw Ysgol Llanbedr ar agor ac wedi gwneud achos dros ffederaleiddio fel opsiwn arall yn lle cau - fodd bynnag gallai fod risg posibl ar gyfer y partner ffederaleiddio, a oedd yn ysgol gynaliadwy yn ei rinwedd ei hun ar hyn o bryd
- roedd manteision yr opsiwn ffederaleiddio wedi cael eu nodi gan y Cyrff Llywodraethu yn yr adroddiad ac roedd yn cynnwys arfer gorau a phrofiadau dysgu – gallai llawer o'r buddion hynny gael eu gwireddu gan ysgolion sy'n gweithio’n fwy cydweithredol ac nid oeddynt yn achos cryf dros ffederaleiddio ar eu pen eu hunain
- ni ddarparwyd manylion y model ffederaleiddio ar hyn o bryd, ac er bod pellter o 10 milltir rhwng yr ysgolion yn arwyddocaol, roedd y cynnig yn nodi na fyddai disgyblion yn cael eu trosglwyddo rhwng safleoedd, dim ond yr athrawon, a gofynnwyd cwestiynau ynghylch ymarferoldeb trefniant o’r fath heb unrhyw arbedion maint yn cael eu gwireddu
- byddai rhywfaint o gyfrifoldeb ariannol yn cael ei dynnu oddi ar y Cyngor yn sgil newid yn y statws cyfreithiol i Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir a oedd yn ymwneud â chlustnodi'r eiddo ar gyfer cynnal a chadw.

Ymatebodd y Cynghorydd Huw Williams i’r ddadl am ffederaleiddio a dywedodd -

- nad oedd unrhyw ymgynghori wedi cael ei gynnal ar hyn o bryd ac roedd yn anodd ateb cwestiynau penodol hyd nes yr ymgynghorwyd yn llawn ar y cynnig
- roedd arbedion syth yn cynnwys £26,000 yn sgil peidio â gorfod cludo disgyblion i Ysgol Borthyn a £12,000 ar staffio ac nid oedd unrhyw ddiffygion cyllidebol yn y naill ysgol na’r llall
- bu ffederaleiddio llwyddiannus yn ardal Wrecsam rhwng ysgolion oedd fwy na 10 milltir ar wahân, a
- pharhaodd niferoedd disgyblion Ysgol Llanbedr a’r rhagamcanion i gynyddu.

Gofynnodd y Cynghorydd Huw Williams hefyd gwestiynau ynghylch y cynnydd mewn arbedion a gynigiwyd o ganlyniad i gau ysgol; a oedd y Cabinet wedi bod yn

gyfrin i’r holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Esgobaeth, a cheisiodd farn y Cynghorydd Eryl Williams, fel Aelod Arweiniol dros Addysg, am adroddiad Hill. Mewn ymateb bu’r swyddogion -

- yn esbonio’r y gwahaniaeth yn y cyfrifiad arbedion o £68,000 i £126,000 o ganlyniad i newidiadau a wnaed trwy'r Fforwm Cyllideb Ysgolion yn nhermau cyllid nad oedd yn cael ei arwain gan ddisgyblion - ni fyddai’r awdurdod lleol yn gwneud arbedion o ffederaleiddio
- dywedodd petai’r Cabinet o blaid dilyn y dewis ffederaleiddio byddai angen i’r Cyrff Llywodraethu symud ymlaen ag o, a
- rhoddodd sicrwydd bod yr holl ddogfennaeth a gyflwynwyd wedi bod ar gael i aelodau'r Cabinet.
- Ymatebodd y Cynghorydd Eryl Williams gan ddweud nad oedd llawer o argymhellion adroddiad Hill wedi cael eu gweithredu, ac roeddent yn fater i Lywodraeth Cymru ynghyd ag adolygiadau dilynol, megis adroddiad Donaldson.

Trafododd y Cabinet yr adroddiad a chasgliadau ymgynghori eraill, a gofyn a fyddai’r cynnig yn cyflwyno amcanion y Cyngor o ran llefydd gwag, canlyniadau addysgol a chynaliadwyedd. Cadarnhaodd swyddogion na fyddent yn mynd i’r afael â’r mater o leoedd dros ben drwy gadw’r ysgol. Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Llanbedr wedi cynyddu, ond ystyriwyd bod yr ysgol yn parhau yn anghynaladwy o ystyried bod yna gapasiti addas arall yn yr ardal – gallai cynnydd yn niferoedd disgyblion yn Ysgol Llanbedr hefyd arwain at leoedd dros ben mewn ysgolion eraill. Byddai arbedion cyfalaf a refeniw hefyd yn cael eu cyflawni petai’r cynnig yn cael ei weithredu drwy ddarparu rhagor o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar gyfer ystâd ysgolion.

Gofynnodd y Cynghorydd Huw Williams gwestiynau ynghylch lleoedd dros ben a chapasiti / addasrwydd Ysgol Borthyn i dderbyn disgyblion ychwanegol. Tynnodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts sylw at y newidiadau i gynigion gwreiddiol adolygu ardal Rhuthun a cheisiodd sicrwydd bod gan bob ysgol gapasiti priodol i ddiwallu anghenion lleol. Ymatebodd y Swyddogion i’r materion a godwyd fel a ganlyn -

- rhoddwyd sicrwydd ynghylch gallu Ysgol Borthyn i dderbyn disgyblion sydd wedi’u hadleoli ac mae'r asesiad risg tân wedi ei gynnwys yn y Cynllun Cyfalaf ar gyfer ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2015. Roedd yr asesiad ffordd ac asesiad risg traffig yn foddhaol
- petai holl gynigion adolygiad ardal Rhuthun yn cael eu gweithredu, byddai lleoedd gwag yn lleihau o 23% i 9% - roedd cyfrifiadau ar gyfer lleoedd mewn ysgolion wedi eu gwneud o ran y cymysgedd o ysgolion a darpariaeth yn yr ardal, a’r wybodaeth sydd ar gael. Er nad oedd unrhyw sicrwydd absoliwt, mae ffigurau diweddar wedi cael eu priodoli gyda lefel uchel o gywirdeb. Roedd capasiti yn cael ei reoli ymhellach gan yr awdurdod drwy broses derbyn yr ysgol.

Tynnodd y Cynghorydd Huw Williams sylw at yr angen am ddatrysiad i fodloni'r gymuned leol gyda 539 o ymatebwyr yn cefnogi’r ysgol o gymharu â 6 ar gyfer cau. Ychwanegodd fod gan Ysgol Llanbedr gefnogaeth lawn y gymuned ac y byddai ganddi ddyfodol petai’n cael ffynnu drwy ffederaleiddio.

Fe soniodd y Prif Weithredwr am benderfyniadau anodd ond angenrheidiol y byddai angen eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â lleoedd dros ben, buddsoddi mewn moderneiddio addysg a sicrhau bod ysgolion yn gynaliadwy i'r dyfodol. Roedd yn credu bod ffederaleiddio yn ddatrysiad mewn sefyllfaoedd penodol, ond nid felly yn yr achos hwn. Fe soniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democratiaeth am ofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion a'r ystyriaeth y dylai'r Cabinet ei roi i ymatebion yr ymgynghoriad. Atgoffodd y Cabinet mai'r cynnig dan ystyriaeth oedd y cynnig i gau'r ysgol a bod y mater o ffederaleiddio wedi cael ei godi fel rhan o'r ymgynghori ar y cynnig hwnnw. Ar ôl ystyried y cyfan roeddynt wedi ei glywed a'i ddarllen i ymateb i'r ymgynghoriad, dylai aelodau'r Cabinet benderfynu pa unai i gyhoeddi rhybudd statudol neu beidio o ran y cynnig i gau'r ysgol. Petai aelodau'r Cabinet o'r farn y dylid dilyn y dewis ffederaleiddio a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad, byddai'n rhaid iddynt bleidleisio yn erbyn yr argymhelliad a chychwyn ymarfer ymgynghori newydd o ran cynnig i ffederaleiddio.

Ar ôl adolygu'r adroddiad ac ymatebion yr ymgynghoriad a dderbyniwyd yn ofalus -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn rhoi cymeradwyaeth i gyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Llanbedr Dyffryn Clwyd ar 31 Awst 2016 a throsglwyddo'r disgyblion presennol i Ysgol Borthyn, Rhuthun, yn dibynnu ar ddewis y rhieni.*

Ar y pwynt hwn (12.30pm) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

## 7 ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL DRAFFT CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 2015: DIFFYG CYFLENWAD 5-MLYNEDD O DIR SY'N BAROD I'W DDATBLYGU AR GYFER TAI

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus ddrafft cyntaf Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol, a soniodd am ei bryderon ynghylch effaith dull cyfrifo rhagnodedig Llywodraeth Cymru am gyflenwi 5 mlynedd o dir sy'n barod i'w ddatblygu ar gyfer tai, a oedd yn brif ddangosydd perfformiad ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.

Eglurodd y Cynghorydd Smith fod y dull cyfrifo gweddilliol a ragnodwyd yn rhoi awdurdodau lleol dan anfantais ac yn achos Sir Ddinbych, gadawyd y sir â chyflenwad tir ar gyfer tai o 2.10 mlynedd o gymharu â bron i gyflenwad tir ar gyfer 10 mlynedd yn seiliedig ar dai a gafodd eu cwblhau yn y pum mlynedd diwethaf. Tynnodd sylw hefyd at y posibilrwydd o apeliadau cynllunio petai'r dull cyfrifo presennol yn parhau. Felly, cynigiodd bod sylwadau yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r pryderon hyn.

Roedd aelodau'r Cabinet yn rhannu'r pryderon hynny gan ofyn beth oedd sefyllfa awdurdodau lleol eraill. Cadarnhaodd y swyddogion nad oedd rhaid i awdurdodau lleol heb Gynllun Datblygu Lleol gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol, ond byddent yn cael eu hystyried nad oedd ganddynt unrhyw dir ar gael ar gyfer tai ar gael. Roedd awdurdodau lleol sydd wedi mabwysiadau CDLl mewn sefyllfa debyg i Sir Ddinbych, a dim ond dau awdurdod yn cyrraedd y gofyniad 5 mlynedd o dan y dull rhagnodedig presennol. O ystyried effaith y dull cyfrifo ar awdurdodau lleol

eraill, cynigiwyd eu bod yn ceisio cefnogaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a)* *nodi'r Adroddiad Monitro Blynyddol llawn (ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad), sef yr adroddiad cyntaf o'i fath;*

*(b)* *yn cytuno y dylid anfon datganiad ysgrifenedig ar ran y Cabinet i Lywodraeth Cymru yn amlinellu pryderon am y dull cyfrifo a ragnodwyd ar gyfer cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai sy'n rhwydd i'w ddatblygu, ac*

*(c)* *anfon copi o gyflwyniad y Cyngor i Lywodraeth Cymru at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn gofyn am gefnogaeth.*

## 8 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- rhagwelwyd tanwariant net o £0.476 miliwn ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- roedd 91% o'r arbedion y cytunwyd arnynt (targed o £7.3 miliwn) wedi'u sicrhau hyd yma
- amlygwyd y prif amrywiadau oddi wrth dargedau cyllideb neu arbedion yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol
- diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol)
- y wybodaeth ddiweddaraf am Derfynu Contract Cynllun Ariannu Preifat a thalodd deyrnged i'r Prif Swyddog Cyllid a'i dîm am eu holl waith yn y cyswllt hwnnw, a
- gofynnodd i'r Cabinet gymeradwyo trosglwyddo cyllid o £40,000 i'r gronfa wrth gefn EDRMS i helpu i ariannu'r prosiect yn 2016/17.

Cafodd y materion canlynol eu trafod yn ystod y ddadl -

- roedd yr aelodau'n falch o nodi'r manteision ac arbedion o ganlyniad i derfynu'r contract Cynllun Ariannu Preifat a oedd yn cynnwys Neuadd y Sir, Neuadd y Dref Rhuthun a chyfleuster Storfa Corfforaethol, ac ymatebodd y Cynghorydd Thompson-Hill ymateb i gwestiynau a godwyd yn hynny o beth gan gynnwys trefniadau rheoli cyfleusterau
- roedd y Cabinet hefyd yn falch o adrodd ar lwyddiant y prosiectau mawr, rhoddwyd sylw arbennig i Ddatblygiad Arfordir Gorllewin y Rhyl a Phrosiect cysylltiedig Gwella Tai Gorllewin y Rhyl; Ysgol Uwchradd y Rhyl, a chyfres o lansiadau meddal ar gyfer Canolfan y Nova cyn y lansiad ffurfiol ar 23 Tachwedd – roedd aelodau'n teimlo y dylid gwneud mwy i hyrwyddo buddsoddiad sylweddol mewn prosiectau mawr

- fe ddiweddarodd y Cynghorydd Barbara Smith yr aelodau am brosiect EDRMS gan ddweud y byddai'r gronfa wrth gefn yn galluogi trawsnewid electronig mewn gwasanaethau ychwanegol
- fe nodwyd bod cyflawni 91% o arbedion y cytunwyd arnynt ar yr adeg hon yn y flwyddyn ariannol yn gyflawniad arwyddocaol ac yn glod i'r gwasanaethau perthnasol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a)* *yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer y gyllideb, a*

*(b)* *chymeradwyo trosglwyddo cyllid o £40,000 i'r gronfa wrth gefn EDRMS i helpu i ariannu'r prosiect yn 2016/17.*

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried ac roedd yr aelodau'n nodi'r newidiadau canlynol -

- eitem ychwanegol ar gyfer mis Rhagfyr ar y Cynllun Dirprwyo Swyddog ynghyd ag eitem posibl ar Orchymyn Prynu Gorfodol Ysbyty Gogledd Cymru
- eitem ychwanegol ar gyfer mis Ionawr ar y Gyllideb, ac
- roedd adroddiad yn dilyn cyhoeddi rhybudd statudol i gau Ysgol Llanbedr wedi ei drefnu dros dro ar gyfer mis Chwefror.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.15pm.